

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 6ed 2022 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Bethan Thomas, Alwyn Jones, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Dewi Pritchard, Iolo V. Evans, Gary Thomas a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Rita Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymatebion am y cwynion/materion a godwyd:-

- i) Mesuriadau i arafu traffig yn dod allan o fynedfa Maes Carafanau Crynieth, Cefnddwysarn - cafwyd cadarnhad gan Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd mae'r perchnogion eu hunain byddai'n gyfrifol am roi unrhyw ddarpariaeth yn ei le ac ni ddylai effeithio defnyddwyr y briffordd a chreu gwrthdynciad.
- ii) Pont a Sgwâr Llandderfel - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi ymweld â'r safle ond nid oedd wedi gweld unrhyw ddiffygion oedd angen sylw brys ond wedi gosod arwyddion 'Gwyneb Llithrig'. Roedd bwriad ailwynebu'r ffordd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y cynghorwyr yn anhapus ac ymateb Cyngor Gwynedd ynglŷn ag arwisgo Sgwâr Llandderfel, cytunwyd i ofyn am gyfarfod gyda'r swyddogion ar y safle.
- iii) Arwyddion gwell i rybuddio gyrwyr fod y ffordd o Fethel i Llandderfel yn anaddas i loriau HGV – roedd Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod arwyddion gwell ym Methel a Llandderfel.
- iv) Gwrych ger y cae chwarae angen ei dorri'n ôl - roedd y perchennog wedi rhoi addewid i'w dorri'n ôl.
- v) Pryder am ddiogelwch y pentwr uchel o fyrnau mawr ar ochr yr B4401, Llanfor – roedd y perchennog wedi cytuno i dynnu rhai i lawr.
- vi) Arwyddion toiledau Llandderfel – roedd Cyngor Gwynedd wedi ein cynghori y byddai'n rhaid talu am yr arwyddion gan nid hwy oedd yn berchen ar y toiledau. Byddant yn gallu gosod yr arwyddion, am gost, ar ran y pwyllgor ac felly roedd y clerch wedi anfon y manylion ymlaen iddynt.
- vii) Goryrru ar yr B4501 - derbyniwyd canlyniad arolwg cyflymder o'r ffordd ac ym marn y Peiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd nid oedd yn adlewyrchu pryder o gôr yrru yn yr ardal. Er hynny roedd y ffordd yn un a oedd wedi ei glustnodi ar gyfer arolwg pellach ac os oes cyfiawnhad i ddarparu gwelliannau effeithiol byddant yn gweithredu hyn. Doedd dim dyddiad penodol ar gyfer yr arolwg ar hyn o bryd.

b) Fferm Wynt Gaerwen.

Trafodwyd yr hyn a godwyd yn y cyfarfod yn Llandderfel a chytunwyd fod angen lledaenu'r neges fel bod yr holl drigolion lleol yn cael y cyfle i anfon eu sylwadau i'r Cyngor.

c) Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25.

Mabwysiadwyd y Cynllun a baratowyd gan y clerch.

ch) Cynllun Ardal Ni.

Trafodwyd cynnwys cofnodion y cyfarfod yn Y Bala a chytunwyd i nodi mae prif flaenoriaethau'r Cyngor byddai, gwaith a thai i bobl ifanc, trafndiaeth gymunedol, llwybr troed Frongoch i Bala a lleihau'r achosion o dddwyn yn yr ardaloedd gwledig.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Llywodraeth Cymru

- i) Dyfodol Cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth

ii) Y Dreth Gyngor: Ymgynghoriadau ar Reoliadau drafft i estyn eithriadau premiymau ail gartrefi ac ar Ganllawiau.

b) Un Llais Cymru.

i) Copi o ganllawiau newydd ar fwlio ac aflonyddu mewn cynghorau. Cytunwyd i'w fabwysiadu.

ii) Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

c) Amrywiol.

i) Grŵp Cynefin - byngalo gwag ar gael yn Llandderfel.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-

NP5/72/250B, Cronfa Ddŵr Llyn Celyn, Frongoch.

vi) Materion Ariannol.

a) Llywodraeth Cymru.

i) Swm priodol o dan adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24.

ii) Llundio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2021-22

b) Cyllideb a Praesept 2023/24 – materion a drafodwyd.

i) Cytunwyd i godi cyflog y clerics o Ebrill 2023 yn unol â dyfarniad cenedlaethol cyflog terfynol i glercod. Cytunwyd hefyd i gynnwys gwerth 25 awr o gyflog ychwanegol yn y gyllideb.

ii) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer costau staff, yswiriant a chyfraniadau i fudiadau ac elusennau.

iii) Trafodwyd cyllideb y fynwent a chytunwyd i'w adael run fath am rŵan gan y geisio am arian ychwanegol o Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog ar gyfer gwneud gwelliannau i'r mynwentydd.

iv) Er bod yr arian tu cefn wedi lleihau yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol cytunwyd fod digon o arian i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn. Cytunwyd i gadw'r Praesept ar £9,000 ar gyfer 2023-24.

c) Taliadau.

Cytunwyd i dalu:

i) ICO.

ii) Cyngor Gwynedd (bin gwastraff gardd mynwent Llandderfel, ad-daliad i'r clerics).

iii) Cyflog a chostau'r clerics (Hyd-Rhag).

iv) TWE.

c) Ceisiadau ariannol.

i) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel a Dawns i Bawb. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'u trafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerics basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Llechi yn rhydd ar do'r Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – gofynnwyd i'r clerics ail gysylltu â'r swyddog ynglŷn â hyn.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 7fed am 7.30 y.h. yn Neuadd Llandderfel.